

Cofion

- Mae nifer o'n plith sydd heb fod yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn. Cyflwynwn hwy i ofal yr Arglwydd, gan ofyn iddo gysgodi drostynt a thros eu hanwyliaid yr un modd. Hyderwn y byddant oll yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen. Mae eraill o'n plith yn galaru am anwyliaid a gweddiwn y byddant yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau anodd hyn.
- Anfonwn ein cofion hefyd at ein ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Bessie Owens, Cefn Berain (Plas Llanrhaeadr); Mrs Kitty Parry, Llanefydd a Mrs Elsie May Edwards, Llansannan (Yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur); Miss W J Roberts, Cefn Meiriadog a Mrs Edith Maloney, Henllan (Yr Hen Ddeondy, Llanelwy); Mrs Morfudd Williams, Henllan (Tŷ Cariad, Abergele); Mrs Gwenfyll Williams, Llansannan (Bryn yr Eglwys, Pentrefoelas); a Mrs Elizabeth Hughes, Llansannan (Plas Eleri, Dinbych). Cyflwynwn hwythau i ofal Duw.

Arian Sasiwn y Chwiorydd

Gair i'ch atgoffa y bydd trysorydd eich eglwys yn falch o dderbyn eich cyfraniad tuag at gasgliad Sasiwn y Chwiorydd **yr wythnos hon**, os gwelwch yn dda.

Nodyn i'r Trysoryddion: A wnewch chi anfon yr arian i Mair (gydag unrhyw sic yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled') erbyn Ebrill 11eg, os gwelwch yn dda?

Gwaith Cwrs Ysgolion Sul Henaduriaeth Dyffryn Clwyd 2017

Gair i'ch atgoffa fod angen mynd â'r cyweithiau i Gapel Llanefydd **nos Lun, Ebrill 10fed** rhwng 7.00 ac 8.00. A fyddwch cystal â rhoi enw'r capel a rhestr o enwau'r plant ar y gwaith, os gwelwch yn dda?

Llanw

Os oes rhai ohonoch â diddordeb i fynd i Llanw fydd yn cael ei gynnal yng Nghricieth rhwng Ebrill 17eg–20fed (nos Lun – nos Iau), neu os medrwch gynnig lifft i rywun i fynd yno, a wnewch chi adael i Mair wybod **erbyn Ebrill 10fed** fel y gallwn wneud trefniadau, os gwelwch yn dda? Bydd oedfa yn cael ei chynnal am 10:00 y bore ac am 7:00 yr hwyr, gyda grwpiau bach a seminarau yn dilyn yr oedfaon, a gweithgareddau wedi eu trefnu ar gyfer y prynhawniau. Mae'r amserlen lawn i'w gweld yn y daflen wybodaeth a anfonwyd i'r eglwysi ac ar y wefan: www.llanw.org.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Mathew 21:6-10 (BCND tud.24 / BCN tud.22)

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 2^{il} Ebrill 2017

Darlleniad y Dydd

Sechareia 9:9-10

(BCND tud.863 / BCN tud.787)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i bawb i'n hoedfaon heddiw. Wrth i ni nesáu at y Pasg, gweddiwn am gymorth yr Ysbryd Glân i sylweddoli mor wych ydyw'r Arglwydd sy'n achub, ac mor hyfryd o bendant yw'r gair "gorffennwyd" a ddaeth o enau Iesu cyn iddo farw ar y groes (Ioan 19:30). Cwblhaodd y Gwardwr ei waith, fe'i gwnaed yn felltith yn ein lle, ac oherwydd hynny daeth holl fendithion ysbrydol y nef yn eiddo i'r rhai sy'n perthyn i'r Meseia (Effesiaid 1:3).

Un term sydd wedi cael ei ddefnyddio'n aml ar y cyfryngau yn ddiweddar yw newyddion ffug neu *fake news*. Darlledwyd rhaglen S4C ar y pwnc sy'n cyfeirio at benawdau a straeon newyddion nad oes fawr ddim sail ffeithiol iddynt. Er hynny, maent yn cael cryn sylw ac yn llwyddo i dwyllo llawer oherwydd bod cynifer yn pasio'r straeon hyn ymlaen fel rhai gwir. Wrth gwrs, gall hynny ddigwydd yn ein sgysiau ninnau wrth i straeon ledu fel tân gwyllt, weithiau heb lawer o sail iddynt. I Gristnogion mae arweiniad y Beibl yn glir – fod hel straeon dirmygus yn cael ei wahardd (Iago 4:11) a chelwyddau yn deillio o'r diafol (Ioan 8:44). Nid ffaith ddibwys yw'r datganiad mai gair y gwirionedd yw'r Efengyl Gristnogol (Colosiaid 1:5) a chofiwn mai Arglwydd heb dwyll yn ei enau yr ydym yn ei addoli (1 Pedr 2:22). Sut ddylai hyn i gyd ddylanwadu arnom felly? Trwy ein gwneud yn ofalus o'r hyn yr ydym yn gwrandao arno ac yn ei gredu, a'r un mor ofalus o'r hyn a ddywedwn wrth eraill. Hyd yn oed mewn cyd-destun Beiblaidd gwelwn sut all pobl fynd dros ben llestri wedi iddynt glywed rhywbeth neu gael camsyniadau. Yn Sechareia 9, ceir disgrifiad grymus o ddyfodiad y Brenin buddugoliaethus i mewn i Jerwsalem. Efallai fod y disgrifiad hwn yn swnio'n gyfarwydd iddo gael ei ddyfynnu yn y Testament Newydd wrth i Iesu ddod i mewn i Jerwsalem (Mathew 21:1-10). Wrth gwrs, nid ffug newyddion oedd yr hanes am Fab Dafydd yn dod i mewn i Jerwsalem, yn hytrach gwir gyflawniad o broffwydoliaeth Sechareia ydoedd, ond nid oedd y dyrfa cweit wedi deall hyn yn iawn. Credent hwy mai arweinydd gwleidyddol, milwrol oedd Iesu o Nasareth, pan fod y gwirionedd yn bell iawn o hyn. Tybed ydym ni'n tueddu i wneud camsyniadau tebyg am Dduw ac am yr Arglwydd Iesu Grist? Ydym ni'n cymryd pethau yn ganiataol heb ystyried yn ddifrifol beth sy'n wir? Ydym ni wedi edrych yn fanwl ar yr hyn ddywed y Beibl am Dduw, ei addewidion a'i waith bendigedig fel Ceidwad ym mherson Iesu? O wneud hynny, cawn ein calonogi, ein hargyhoeddi a'n hadeiladu mewn ffydd wrth sylweddoli fod yr hyn ddigwyddodd ar Galfaria ac ar y trydydd dydd yn llawer gwell nac unrhyw stori sy'n dod o ddychymyg dynol. Pam? Oherwydd ei fod yn profi'r gwirionedd fod Duw wedi caru'r byd cymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bwy bynnag sy'n credu ynddo beidio mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 2^{il} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.
- lau – 6^{ed} ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener – 7^{fed} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf – 9^{fed} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Celfyn Williams yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 2^{il} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 9^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 2^{il} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 9^{fed} ➤ Bydd Dr Owain Roberts yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 2^{il} ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00 a bydd Ysgol Sul yno am 10.00.
- Sul nesaf – 9^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 2^{il} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol ac yn gweinyddu'r cymun i'r daith yn Llanefydd am 10.00.
- Sul nesaf – 9^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 2^{il} ➤ Bydd gwasanaeth ar y thema Apêl Corwynt Cariad i'r daith yn Henllan am 10.00 pryd y bydd Cheryl Williams yn rhoi sgwrs am ei hymweliad â'r Philippines. Gwneir casgliad arbennig tuag at yr Apêl yn ystod y gwasanaeth. Bydd Ysgol Sul yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 9^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

I ddod

- **MYFYRDOD Y PASG A CHYFARFOD GWEDDI I'R FRO** yn Groes nos Fawrth, Ebrill 11eg.
- **ASTUDIAETH FEIBLAIDD I'R FRO** yn Llanefydd nos lau, Ebrill 13eg.
- **OEDFA BORE'R GROGLITH I'R FRO** – Oedfa gymun yng Nghapel Cefn Meiriadog bore Gwener, Ebrill 14eg am 10.30.
- **OEDFA'R GROGLITH** yng Nghapel Cefn Berain nos Wener, Ebrill 14eg am 7.00. Pregethir gan y Parch. Thomas Evans Williams.
- **CYFARFOD CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** – Noson Gymdeithasol yn Ffestri Capel Mawr, Dinbych nos Fawrth, Ebrill 25ain am 7.30 yng nghwmni y Parch. Hywel Meredydd. Darperir lluniaeth ysgafn am bris rhesymol.
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yn Eglwys Unedig Seion/Bryneglwys, Corwen dydd Mercher, Mai 10fed gyda Bethan Davies, Port Talbot yn annerch am 2.00 ac Arfon Jones, Caerdydd am 5.30.
- **SASIWN PLANT** (Groes, Henllan, Nantglyn, Peniel a Saron) yn Saron, dydd Sul, Mai 21ain am 2.00. Yr arweinydd fydd Mrs Elsbeth Jones, Gellifor.
- **"LLWYBR MARI A'N LLWYBR NI"** – Mae Adran Is-bwyllgor y Chwiorydd EBC a Byd Mary Jones yn cydweithio i drefnu encil ar gyfer grwpiau o ferched. Bydd y diwrnod yn cynnwys cyfle i edrych ar agweddau gwahanol o fywyd a ffydd Mari, cyfle i wrando ar dystiolaethau gan bobl sy'n trysori Gair Duw heddiw, ac ymweliad â'r Ganolfan. Cynigir yr encil yn ystod y prynhawn ar un o'r dyddiau canlynol: *dydd Llun, Ebrill 24ain; dydd Mercher, Mai 24ain; dydd Mawrth, Mehefin 27ain; neu dydd Mawrth, Gorffennaf 18fed.* Y pris yw £11 yr un yn cynnwys cinio a phaned yn y prynhawn. Mae lle i 30 ar gyfer pob sesiwn a fydd yn dechrau 11.45 tan 4.00. I archebu lle, cysylltwch â Nerys Siddall ar 01678 521877 neu ar ebost: nerys.siddall@biblesociety.org.uk

Manylion Cyswilt

- Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
- Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.